



# Cynllun Pwnc Meddygaeth

Ebrill 2018

CYMRÆG



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad a chyd-destun

### **Cyd-destun**

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae "Tuag at 2020 a thu hwnt" yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg.

<<http://bit.ly/2rtglxT>>

Mae'r Cynllun Pwnc Meddygaeth yn gosod yr egwyddorion a'r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

### **Proses**

Cam cyntaf y broses o lunio'r cynllun hwn oedd i sefydliadau ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae'r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

### **Egwyddorion a Themâu**

Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

### **Strwythur y Cynllun**

Mae'r Cynllun Pwnc Meddygaeth yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o'r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i'r maes meddygol.

Mae llwybrau gwahanol i gymhwyso fel meddyg. Ym Mhrifysgol Caerdydd, mae'n bosib dilyn cwrs yn syth ar ôl cwblhau astudiaethau safon uwch. Gyda chymwysterau yn y gwyddorau, mae'n bosib dilyn y cwrs Meddygaeth (MBBCh) 5 mlynedd A100, neu i rai nad ydynt wedi astudio'r gwyddorau i safon uwch, mae modd gwneud blwyddyn ragarweiniol a dilyn y cwrs Meddygaeth (MBBCh) 6 blynedd A104.

Er bod y cyrsiau hyn ar gael i raddedigion, mae Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe hefyd yn cynnig cyrsiau penodol i raddedigion sy'n galluogi myfyrwyr i gymhwyso mewn 4 blynedd, sef Meddygaeth (MBBCh) cynllun mynediad 4 blynedd A101 (Prifysgol Caerdydd) a'r Rhaglen Meddygaeth i Raddedigion (MBBCh) ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r cwrs yn Abertawe yn radd feddygol gyflym 4 blynedd sy'n agored i raddedigion sy'n meddu ar radd dda, neu radd meistr gyfatebol, mewn unrhyw ddisgyblaeth. Mae'r cwrs A101 ym Mhrifysgol Caerdydd ar gael yn unig i gyn-fyfyrwyr o gyrsiau penodol Fframacoleg Meddygol neu'r Biowyddorau (Prifysgol Caerdydd), neu'r Gwyddorau Meddygol (Prifysgol Bangor neu Prifysgol De Cymru).

Cynigir hefyd y cyrsiau canlynol sy'n gallu arwain at lwybr o fewn y radd MBBCh: Gwyddorau Meddygol Cymhwysol; Biocemeg a Geneteg; Biocemeg; Biocemeg Feddygol; Geneteg Feddygol; Geneteg. Cynigir hefyd Diploma Ôl-raddedig Astudiaethau Cydymaith Meddygol.

Prif hanfod gradd mewn Meddygaeth yw bodloni anghenion y claf. Mae'r cyfle i gyfathrebu a rhyngweithio gyda chleifion ar leoliadau clinigol yn rhan annatod o'r cwrs, a chynigir profiadau amrywiol mewn ysbytai, canolfannau meddygol cymunedol a meddygfeydd ledled Cymru. Rhoddir cyfle i'r myfyrwyr gwblhau'r cyfnodau ar leoliad drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo hynny'n bosibl.

O ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Meddygaeth, bu datblygiad sylweddol iawn yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. Mae Prifysgol Caerdydd yn enwedig wedi datblygu ei darpariaeth a denu nifer hyfyrwyr o fyfyrwyr drwy gyfuniad o gefnogaeth gyllidol gan y Coleg Cymraeg a buddsoddiad mewnol. Mae oddeutu 1,500 o fyfyrwyr yn astudio Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd a thua 10% yn datgan bod ganddynt sgiliau yn y Gymraeg, sydd yn cyfateb i'r ganran o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn y Brifysgol.

Mae Prifysgol Abertawe yn cynnig o leiaf 50 credyd y flwyddyn o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar y cwrs MBBCh. Mae'r cwrs yn denu niferoedd bach o fyfyrwyr yn flynyddol trwy gefnogaeth gyllidol gan Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Hyd at 75 myfyriwr sy'n cael lle ar y cwrs MBBCh ym mhob blwyddyn.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol oddi mewn i'r Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, e.e. drwy'r Cynllun Staffio. Mae cyfuniad o ffactorau yn effeithio ar ddyraniad grant pynciol a ph'un a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Mae Prifysgol Caerdydd yn cyrraedd meini prawf y Cynllun Academaidd (2017) ac mae Prifysgol Abertawe yn dymuno parhau i gynyddu'r niferoedd sy'n cofrestru ar y ddarpariaeth er mwyn cyrraedd y trothwyon gofynnol.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17) <sup>1</sup>			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr
Prifysgol Caerdydd	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	6 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg a 2 aelod o staff rhan-amser yn siarad Cymraeg.  5 aelod o staff yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ceir 167 o fyfyrwyr yn astudio Meddygaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.  Llai na 6 o fyfyrwyr Meddygaeth yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn BI1-5.
Prifysgol Abertawe	O leiaf 50 credyd ar gael ym mhob blwyddyn yn y Gymraeg ar y cwrs Meddygaeth (GEM).  Cynigir hefyd o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar y cyrsiau Biocemeg a Geneteg. <sup>2</sup>	Ar draws yr ysgol, ceir 8 aelod o staff llawn amser sy'n siarad Cymraeg a 3 aelod o staff yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.  Mae o leiaf un aelod o staff yn dysgu ar y cwrs Meddygaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ceir 45 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol sy'n gallu siarad Cymraeg BI1-4.  Llai na 6 yn astudio Meddygaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.  Llai na 6 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.

<sup>1</sup> Data gan y sefydliadau.

<sup>2</sup> Mae manylion y ddarpariaeth Biocemeg a Geneteg yn ymddangos yn y Cynllun Pwnc Gwyddorau Naturiol, ond mae'r ddarpariaeth yn eistedd yn yr Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Abertawe ac mae rhai myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio'r cwrs Meddygaeth (GEM) ar ôl dilyn y cyrsiau gradd hyn.

**Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol**

<p><b>Profiad Myfyrwyr</b></p>	<p>Mae profiad y myfyriwr yn ganolog i astudio gradd Meddygaeth yn ddwyieithog. Cynigir amrediad o brofiadau i fyfyrwyr gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhadledd cyfrwng Cymraeg ym mis Ionawr bob blwyddyn ar bwnc penodol (e.e. 2016, Cwmp; 2017, Caeth).</li> <li>• Lleoliadau clinigol yn y byrddau iechyd ledled Cymru, un ai mewn ardaloedd gyda chanran uchel o gleifion Cymraeg neu gyda meddygon sydd yn cael eu cydnabod fel goruchwylwyr neu fentoriaid Cymraeg eu hiaith.</li> <li>• Tiwtor personol cyfrwng Cymraeg.</li> <li>• Seminarau cefnogaeth cyfrwng Cymraeg (blwyddyn 1 a 2 Prifysgol Caerdydd).</li> <li>• Grŵp dysgu drwy achosion yn cael ei gynnal yn y Gymraeg (blwyddyn 1 Prifysgol Caerdydd).</li> <li>• Sesiynau cefnogi ac adolygu yn cael eu trefnu gan fyfyrwyr hŷn, e.e. ymarfer ISCE.</li> <li>• Prosiectau dewisol (SSC) yn cael eu goruchwyllo gan glinigwyr sy'n siaradwyr Cymraeg.</li> <li>• 'Doctoriaid yfory'. Bu camerâu Green Bay Media, cwmni cynhyrchu uchel ei barch, yn dilyn 15 o fyfyrwyr meddygaeth Prifysgol Caerdydd am 12 mis ledled Cymru. Roedd yr adborth gan y myfyrwyr yn gadarnhaol iawn gan eu bod yn gwerthfawrogi cael cyfle i ysbrydoli meddygon y dyfodol.</li> <li>• Cwrs iaith pwrpasol i fyfyrwyr di-Gymraeg ac i fyfyrwyr sy'n rhugl, wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.</li> <li>• Cefnogi myfyrwyr o gwrs Prifysgol Abertawe i ganolbwyntio rhannau o'u hastudiaethau yn benodol ar iechyd gwledig, yn seiliedig ar ymchwil sydd yn nodi y gall hyn gynyddu nifer y myfyrwyr sydd yn dewis aros yn ardaloedd gwledig Cymru wedi iddynt gymhwyso.</li> <li>• Cyflwyno cwrs Cymraeg ar gyfer Meddygaeth lefel 1 + 2, i staff a myfyrwyr di-Gymraeg neu dihyder Prifysgol Abertawe trwy gydweithio ag Academi Hywel Teifi.</li> <li>• Cyflwyno'r cyd-destun Cymreig i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o ofynion gweithio yng Nghymru.</li> <li>• Cefnogi myfyrwyr i ymgeisio am Dystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.</li> </ul>
<p><b>Darlithwyr</b></p>	<p>Mae nifer o aelodau'r staff yn ysgolion meddygol prifysgolion Caerdydd ac Abertawe yn medru'r Gymraeg ond mae mwyafrif y capasiti i gynnig profiadau Cymraeg i'r myfyrwyr yn dod trwy law darlithwyr cysylltiol</p>

	<p>yn y byrddau iechyd. Mae'r darlithwyr cysylltiol hyn yn medru cynnig profiadau cyfrwng Cymraeg ar leoliadau neu gyda'r prosiectau SSC (<i>Student Selected Components</i>).</p>
<p><b>Cwricwlwm</b></p>	<p>Nid yw'r cwrs meddygol yn dilyn y patrwm arferol gan nad oes modiwlau ar y cwrs hwn ym Mhrifysgol Caerdydd, ond mae modiwlau swmpus o 3 x 50credyd ym mhob blwyddyn ym Mhrifysgol Abertawe. Fodd bynnag, dros y 5 mlynedd, mae modd i'r myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ddethol a dewis profiadau amrywiol sydd yn gyfuniad o ddilyn a chyflwyno prosiectau yn y Gymraeg, a mynd ar leoliadau mewn ardal sydd â chanran uchel o gleifion a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg. Mae modd iddynt hefyd gael goruchwyliaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar rai lleoliadau.</p> <p>Ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2017–2018, bydd 'Sgiliau Cyfathrebu Cymraeg' yn cael ei fewnffrydio i'r cwricwlwm i'r siaradwyr Cymraeg, a bydd pecyn cynhwysfawr o ddarpariaeth sgiliau iaith pwrpasol (wedi ei seilio ar yr ap 'Gofalu drwy'r Gymraeg') yn cael ei gyflwyno i bob myfyriwr.</p> <p>Ym mis Ionawr 2017, traddododd Dr Awen Iorwerth (darlithydd clinigol ym Mhrifysgol Caerdydd) y ddarlith cyfrwng Cymraeg gyntaf erioed i'r flwyddyn gyfan. Roedd cyfieithu ar y pryd ar gael i'r myfyrwyr di-Gymraeg. Roedd y ddarlith yn ffordd effeithiol o godi ymwybyddiaeth yr holl fyfyrwyr am sut y gellir defnyddio'r Gymraeg a phwysigrwydd dwyieithrwydd mewn Meddygaeth. Roedd dros 200 o fyfyrwyr yn bresennol ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Mae llawer o'r myfyrwyr eisiau dysgu Cymraeg, ac maen nhw'n fodlon mynychu dosbarthiadau Cymraeg i Bawb cyn mynd ar leoliadau clinigol. Traddodwyd y ddarlith drachefn yn Ionawr 2018 yn sgil yr adborth cadarnhaol.</p> <p>Mae cwricwlwm y radd MBChB ym Mhrifysgol Caerdydd wedi ei ddiweddarau i strwythur 3 chyfnod. Mae'r cyfnod cyntaf (blynyddoedd 1 a 2) yn seiliedig ar ddysgu drwy 17 achos clinigol sydd yn cael eu trafod mewn grwpiau bach ac yn cael eu hatgyfnerthu drwy sesiynau ymarferol (anatomi a sgiliau clinigol) ac ar leoliadau cymunedol. Mae'r wybodaeth a'r profiad cynnar hwn yn cael ei bwysleisio yn yr ail gyfnod ym mlynnyddoedd 3 a 4 gyda 6 lleoliad dros 8 wythnos ledled Cymru sy'n cynnig mewnwelediad i'r arbenigeddau. Mae'r trydydd cyfnod ym mlwyddyn 5 yn canolbwyntio ar baratoi ein myfyrwyr drwy greu cyfle iddynt weithio ochr yn ochr â'r tîm y byddent yn ei gefnogi fel meddyg iau ar ôl graddio. Mae'r cyfan yn cael ei danategu gan 9 phrosiect dewisol (SSC).</p> <p>Yn fwriadol, nid yw cwricwlwm y radd MBChB ym Mhrifysgol Abertawe, gyda'i wythnosau dysgu a'i leoliadau clinigol, wedi'i strwythuro mewn modd confensiynol ar sail 'systemau'r corff'. Yn hytrach, mae wedi'i ddylunio i adlewyrchu'r ffordd y mae clinigwyr yn delio â chleifion, a sut y mae cleifion yn eu</p>

	<p>cyflwyno eu hunain i feddygon. Mae'r ymagwedd arloesol hon yn cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu ffordd o feddwl ac o ddefnyddio gwybodaeth sy'n efelychu'r hyn a ddefnyddir mewn ymarfer clinigol. Mae themâu a llinynnau penodol yn rhedeg drwy gydol y Rhaglen a cheir lefel uchel o gyswllt clinigol: 39 wythnos o brentisiaethau clinigol; 35 wythnos o leoliadau arbenigol; 11 wythnos o ddysgu cymunedol; 6 wythnos ddewisol a 6 wythnos o gysgodi.</p> <p>Ym Mhrifysgol Abertawe, mae'r modiwlau 'Meddyg fel Gweithiwr proffesiynol 1–4' (50 credyd yr un) yn cynnwys elfennau o leoliadau, tiwtora personol a phrosiectau astudio, sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn.</p> <p>Ceir darlith ddwyawr ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf bob blwyddyn yn cyflwyno Cymru a'r cyd-destun Cymreig, ynghyd â phwysigrwydd y Gymraeg o fewn gofal iechyd. Mae nifer o fyfyrwyr wedi cwblhau'r cyrsiau dysgu Cymraeg ar gyfer Meddygaeth 1 + 2 – cyrsiau dysgu Cymraeg sydd wedi eu datblygu a'u teilwra'n benodol ar gyfer y cyd-destun iechyd.</p>
<b>Canlyniadau Myfyrwyr</b>	Mae nifer o fyfyrwyr disglair yn ymgeisio i ysgolion meddygol Cymru ac mae'r patrwm hwn wedi gwella yn y blynyddoedd diweddar.
<b>Adnoddau</b>	<p>Dros y blynyddoedd diwethaf, datblygwyd amryw o adnoddau gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau Cyfathrebu Clinigol (Prifysgol Caerdydd, 2016)</li> <li>• Modiwl Iechyd a'r Modelau Biofeddygol a Bioseicogymdeithasol (Prifysgol Bangor, 2017)</li> <li>• Cyfres o fideos astudiaethau achos gwledig (Prifysgol Abertawe, 2017)</li> <li>• Cyfres o bosteri Technoleg Estynedig ar y cwrs MBBCh i Raddedigion, Iechyd Gwledig yng Nghymru a defnydd y Gymraeg o fewn y maes Iechyd (Prifysgol Abertawe, 2016)</li> <li>• Cwrs Cymraeg ar Gyfer Meddygaeth 1 + 2 (Prifysgol Abertawe, 2015)</li> <li>• Cyfres 'Dysgu Am' (cyfraniadau gan Brifysgol Caerdydd, Abertawe a Bangor, 2015).</li> </ul>
<b>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</b>	

	<p>Yn ôl Gyrfa Cymru,<sup>3</sup> mae dros <b>28,270</b> o bobl yn gweithio yn y maes Iechyd Proffesiynol yng Nghymru a thros <b>1.4</b> miliwn drwy'r Deyrnas Unedig. Disgwylir i'r galw yn y dyfodol ar gyfer y grŵp hwn fod yn uchel a disgwylir 20,764 o agoriadau swyddi yng Nghymru erbyn 2024.</p> <p>Fel arfer, mae 100% o raddedigion Meddygaeth sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru yn sicrhau cyflogaeth neu wrthi'n astudio ymhellach o fewn 6 mis ar ôl graddio.</p> <p>Yn ddi-os, mae'r angen am sgiliau Cymraeg mewn Meddygaeth yn bwysicach nag erioed. Mae Strategaeth Iaith newydd Llywodraeth Cymru yn allweddol ac yn gosod pwyslais penodol ar ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau cymunedol, ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod pwyslais ar 'Gymru iachach'.</p> <p>Yn ôl strategaeth Llywodraeth Cymru, Mwy na Geiriau (2012):  “Mae'n bwysig cydnabod mai dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hangen am ofal yn effeithiol” (Mwy na Geiriau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2012).</p> <p>I'r darpar feddyg, mae astudio Meddygaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol wrth baratoi tuag at y gweithle. Yng nghyd-destun y proffesiwn meddygol, mae'r Gymraeg yn rhan o ddarlun bydol ehangach, lle y mae ymwybyddiaeth o anghenion ieithyddol cleifion yn rhan o'r her ddyddiol. Yng ngolau hynny, paratwir y meddyg Cymraeg ei iaith – a all gyfathrebu â chleifion yn gwbl ddwyieithog – at sialensiau bydeang y proffesiwn.</p> <p>Mae galw gan fyrdau Iechyd ledled Cymru am feddygon sy'n medru'r Gymraeg. Bydd y safonau iaith arfaethedig a fydd yn cael eu gosod ar y sector Iechyd gan Gomisiynydd yr Iaith yn 2018 yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau Cymraeg ac yn golygu y bydd unigolion yn disgwyl medru derbyn gwasanaethau Cymraeg.</p> <p>Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Iaith yn ddiweddar, mae canran y staff meddygol ym maes Iechyd meddwl sy'n gallu siarad Cymraeg yn isel iawn – gyda'r ganran cyn ised â 1.9% mewn rhai byrddau Iechyd. Mae'r angen am siaradwyr Cymraeg yn y maes hwn yn glir.</p> <p>Mae cyrsiau gradd meddygaeth i gyd yn cynnwys lleoliadau gwaith gorfodol sy'n arfogi myfyrwyr â sgiliau clinigol.</p>
--	---

<sup>3</sup> [www.careerswales.com/cy/eich-gyrfa/nodweddion/gyrfaedd/](http://www.careerswales.com/cy/eich-gyrfa/nodweddion/gyrfaedd/)



<p><b>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</b></p>	<p>Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ar gyrsiau gradd meddygol yn dilyn llwybr traddodiadol o'r ysgol neu Goleg Addysg Bellach i astudio ar lefel gradd. Mae angen cynyddu'r nifer hynny sy'n astudio Lefel A Bioleg, Cemeg a Ffiseg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sefydliadau hynny.</p> <p>Mae hefyd angen codi ymwybyddiaeth disgyblion nad ydynt yn dilyn y gwyddorau fod ffyrdd amgen tuag at Feddygaeth e.e. y radd gyda blwyddyn ragarweiniol ym Mhrifysgol Caerdydd (A104) neu gymhwyso ar ôl gradd arall (Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe). Mae Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe eisoes wedi ymrwymo i gefnogi cynllun profiad gwaith gyda meddygon teulu a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod cyfleoedd eang i ddisgyblion sy'n ystyried astudio Meddygaeth i gael y profiad y maent eu hangen.</p> <p>Mae Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd wedi ehangu ei rhaglen o weithgareddau ymgysylltu ag ysgolion a cholegau drwy gydweithio gyda'r Byrddau Iechyd, Gyrfa Cymru a'r ysgolion yn uniongyrchol. Drwy ddefnyddio canllawiau'r Cyngor Ysgolion Meddygol ar Ehangu Mynediad, mae'r ysgol wedi ymrwymo i ymgysylltu â disgyblion iau er mwyn sicrhau bod cyfle i'r darpar feddygon baratoi a chynllunio mewn da bryd er mwyn sicrhau'r profiad gwaith a gwaith gwirfoddol angenrheidiol. Rhan annatod o'r ymgysylltu hyn yw sicrhau bod myfyrwyr cyfredol yn ymweld ag ysgolion a cholegau er mwyn rhannu eu profiadau a rhoi cyngor iddynt. Maent yn cael cydnabyddiaeth gan yr ysgol am wneud hyn drwy'r cynllun Llyngenhandon Meddygaeth (<i>Medic Ambassadors</i>).</p> <p>Yn 2018, bydd cynllun peilot 'Doctoriaid Yfory' yn cefnogi 50 o ddarpar feddygon o ysgolion a cholegau yng Nghymru drwy cynnal gweithgareddau penodol ar gyfer disgyblion blwyddyn 12, a sicrhau bod myfyriwr meddygol yn fentor iddynt. Bu 27 o ddarpar feddygon yn cysgodi myfyrwyr cyfredol ar eu penwythnos 'Argyfwng! Meddygaeth Brys Gwledig' yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-Llyn, ym mis Ionawr 2018.</p> <p>Mae nifer cynyddol o fyfyrwyr yn ymgeisio am lefydd ar gyrsiau Meddygaeth ôl-radd yn y DU. Mae 20 myfyriwr yn ymgeisio am bob lle ar y cwrs ym Mhrifysgol Abertawe. Gan mai Abertawe yw'r unig Brifysgol yng Nghymru sydd yn cynnig y cwrs hwn, mae angen cefnogaeth i annog Cymry Cymraeg i ymgeisio am y llefydd, ynghyd â rhoi strwythurau a phrosesau mewn lle er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl sydd yn ymgeisio yn derbyn cynnig am le i astudio.</p>
---	--

	<p>Mae angen taro ar ateb adeiladol er mwyn cyfeirio graddedigion o amrywiol feysydd at gyfleoedd astudio ôl-raddedig mewn Meddygaeth. Mae cyfleu negeseuon recriwtio yn anos gan fod y gynulleidfa wedi'i lledaenu'n eang mewn prifysgolion ar draws y DU a thu hwnt.</p> <p>Un posibilrwydd fyddai cyllido cwrs adolygu ar gyfer y GAMSAT (sydd yn arholiad gofynnol ar gyfer y cwrs), gan gynnwys elfen o hyfforddi ar gyfer cyfweiliad fel rhan o'r cwrs hwn.</p> <p>Mae angen parhau â datblygu'r gefnogaeth i unigolion sy'n ymgeisio am lefydd ar gyrsiau meddygol yng Nghymru.</p> <p>Rhagwelir y bydd angen ymgynghori ymhellach gyda Cholegau Addysg Bellach er mwyn sefydlu galw a dilyniant, a hefyd i amlinellu sut y mae hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg ymhellach.</p> <p>Mae diwrnod blasu Nyrsio wedi ei drefnu ym Mhrifysgol Abertawe ar gyfer 15 Rhagfyr 2017, a bydd disgyblion o sefydliadau addysg bellach y cylch yn dod i'r digwyddiad er mwyn dysgu am amrediad o swyddi yn y maes iechyd a gofal.</p> <p>Mae diwrnod hyrwyddo gyrfaedd yn y maes iechyd a gofal wedi ei drefnu ar gyfer mis Mawrth 2018 yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn ogystal.</p>
--	--

<b>Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol</b>			
<b>Nod gweithredu</b>	<b>Targedau blwyddyn (2017/18)</b>	<b>Targedau 3 blynedd (2019/20)</b>	<b>Targedau 5 mlynedd (2021/22)</b>
1. Darpariaeth (sy'n gyfystyr â chredydau)	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog, gan gynnwys o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg .	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog, gan gynnwys o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog, gan gynnwys o leiaf 80 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd	30 o fyfyrwyr.	40 o fyfyrwyr.	60 o fyfyrwyr.
3. Cynyddu nifer y staff sy'n addysgu yn y Gymraeg	4 aelod staff CALI.	6 aelod staff CALI.	8 aelod staff CALI.
4. Dilyniant	Cynyddu'r ddarpariaeth Lefel A cyfrwng Cymraeg mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg.	Creu cwrs adolygu GAMSAT.	Parhau i gynnig hyfforddiant ôl-gymhwys.
5. Profiad y Myfyriwr	Cynnal cynhadledd i fyfyrwyr Meddygaeth.	Cynnal cynhadledd i fyfyrwyr Meddygaeth.	Cynnal cynhadledd i fyfyrwyr Meddygaeth.

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol				
Sefydliad	Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 blynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
<b>Prifysgol Caerdydd</b>	Darpariaeth (sydd gyfystyr â chredydau)	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn.
	Myfyrwyr	O leiaf 6 y flwyddyn.	O leiaf 8 y flwyddyn.	O leiaf 12 y flwyddyn.
	Profiad Myfyrwyr	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy brosiectau megis SSC.  Cynnal cynhadledd i fyfyrwyr Meddygaeth.	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy brosiectau megis SSC.  Cynnal cynhadledd i fyfyrwyr Meddygaeth.	Datblygu cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd clinigol a thrwy brosiectau megis SSC.  Cynnal cynhadledd i fyfyrwyr Meddygaeth.
	Staff	4 aelod staff CALI.	4 aelod staff CALI.	4 aelod staff CALI.
<b>Prifysgol Abertawe</b>	Darpariaeth	O leiaf 50 credyd ym mhob blwyddyn.	O leiaf 50 credyd ym mhob blwyddyn.  Asesu a datblygu lle bo modd y ddarpariaeth ar gyfer y cyrsiau <i>Physicians</i>	O leiaf 50 credyd ym mhob blwyddyn.

			<i>Associate ac Applied Medical Sciences.</i>	
	Myfyrwyr	O leiaf 6 y flwyddyn yn astudio Meddygaeth.	O leiaf 8 y flwyddyn yn astudio Meddygaeth.	O leiaf 10 y flwyddyn yn astudio Meddygaeth.
	Profiad Myfyrwyr	<p>Sicrhau lleoliad a mentor Cymraeg ei iaith ar gyfer pob siaradwr Cymraeg wrth iddynt weithio ar leoliadau yng Nghymru.</p> <p>Adnabod cyfle i gyflwyno'r cyd-destun Cymreig i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o ofynion gweithio yng Nghymru.</p> <p>Parhau i gydweithio ag Academi Hywel Teifi i gyflwyno gwersi Cymraeg i staff a myfyrwyr eraill.</p>	<p>Sicrhau lleoliad a mentor Cymraeg ei iaith ar gyfer pob siaradwr Cymraeg wrth iddynt weithio ar leoliadau yng Nghymru.</p> <p>Adnabod cyfle i gyflwyno'r cyd-destun Cymreig i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o ofynion gweithio yng Nghymru.</p> <p>Parhau i gydweithio ag Academi Hywel Teifi i gyflwyno gwersi Cymraeg i staff a myfyrwyr eraill.</p>	<p>Sicrhau lleoliad a mentor Cymraeg ei iaith ar gyfer pob siaradwr Cymraeg wrth iddynt weithio ar leoliadau yng Nghymru.</p> <p>Adnabod cyfle i gyflwyno'r cyd-destun Cymreig i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o ofynion gweithio yng Nghymru.</p> <p>Parhau i gydweithio ag Academi Hywel Teifi i gyflwyno gwersi Cymraeg i staff a myfyrwyr eraill.</p>
	Staff	2 aelod staff CALI yn dysgu ar y cwrs Meddygaeth.	2 aelod staff CALI yn dysgu ar y cwrs Meddygaeth.	2 aelod staff CALI yn dysgu ar y cwrs Meddygaeth.